Teitl: Astudiaeth Achos o'r Cyflwyniad i Waith Chwarae Lefel 1

Stori Dysgwr

Siaradwr 1: Daethoch chi ar y cwrs Gwaith Chwarae Lefel 1 fel cyfieithydd ar gyfer y dysgwyr.

Roeddwn i'n meddwl tybed sut oeddech chi'n teimlo amdano, sut oeddech chi'n gweld y cwrs?

Siaradwr 2: Roeddwn i'n teimlo ei fod yn ddiddorol iawn, ac roedd eich cynlluniau gwersi'n ardderchog, a'r ffordd roeddech chi'n esbonio popeth iddyn nhw oedd wir yn... Roeddwn i hyd yn oed yn ei weld yn ddiddorol iawn.

Siaradwr 1: Oeddech chi'n gallu gweld yr effaith roedd yn ei chael ar y merched hyn ar y cwrs?

Siaradwr 2: Oeddwn.

Oherwydd roedden nhw yno ar amser bob tro.

Mae hynny'n dangos bod ganddyn nhw ddiddordeb yn y cwrs roeddech chi'n ei addysgu iddyn nhw.

Siaradwr 1: Felly, beth wnaeth wneud i chi gofrestru ar y cwrs gwaith chwarae lefel 1 hwn?

Beth oedd eich ysbrydoliaeth?

Siaradwr 2: Wel, rwy'n meddwl...

Dylai pawb ddysgu.

Roeddwn i eisiau dysgu am, ti'n gwybod, sut y gallan nhw chwarae'n ddiogel.

Hyd yn oed y pethau sydd ddim yn ddiogel i chwarae â nhw. Rwyf eisiau dysgu, fel na fydd fy mhlant yn colli allan ar y gweithgareddau hynny.

Er enghraifft, rydym yn dysgu sut i gynnau tân, tân gwyllt, mae'n ddrwg gennyf…pwll tân.

Siaradwr 1: A ydych chi'n hyderus nawr ar ôl mynychu'r cwrs?

Siaradwr 2: Ydw. Ar ôl mynychu'r cwrs, dysgais, ti'n gwybod, ein bod ni'n gallu gadael i'n plant chwarae, hyd yn oed mewn mannau lle mae risgiau, drwy osod ffiniau. A gwneud y gweithgareddau hynny'n fwy diogel iddyn nhw.

Siaradwr 1: Beth fasech chi'n ei ddweud pe bai rhywun arall eisiau cofrestru ar gyfer y cwrs hwn?

Fasech chi'n eu hannog i fynd amdani?

Siaradwr 2: Ie, rwy'n teimlo'n llawer mwy hyderus ar ôl gwneud y cwrs hwn, ac fel mam i ddau blentyn bach, rwy'n teimlo y dylai pawb ddysgu'r pethau hyn oherwydd mae'r ffordd rwy'n meddwl amdanyn nhw wedi newid.

Rwy'n edrych am gwrs lefel 2 fel y gallaf ddysgu'n fwy manwl.

Persbectif y Sefydliad

Siaradwr 1: Rwy'n dod o Seren yn y Gymuned ac rydym yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno Gwaith Chwarae Lefel 1.

Siaradwr 2: Felly, pam penderfynodd Oasis a Seren yn y Gymuned gefnogi defnyddwyr gwasanaeth drwy'r cymhwyster hwn?

Siaradwr 1: Felly, mae defnyddwyr gwasanaeth Oasis yn ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Mae ganddyn nhw lawer o anawsterau a rhwystrau o ran cael mynediad at ofal plant sy'n briodol iddyn nhw, fel y gallan nhw gael mynediad at hyfforddiant ac addysg bellach.

Felly, y syniad oedd y gallen ni sefydlu cyfleuster sesiynau chwarae a gofal plant mewnol y gallen nhw ei gynnal ymhlith ei gilydd.

Felly, roeddem yn ceisio cael gwared ar rai o'r rhwystrau fel y gallen nhw fynd ymlaen a chael rhagor o gymwysterau, er mwyn iddyn nhw allu gweithio a chael mynediad at addysg bellach.

Siaradwr 2: Felly, pa newidiadau ydych chi wedi sylwi arnyn nhw yn y dysgwyr ers iddyn nhw fynychu'r cwrs hwn?

Siaradwr 1: Maen nhw'n bendant yn fwy agored i'r syniad o risg. Roedden nhw'n osgoi risgiau o'r blaen.

Maen nhw'n bendant yn dechrau sylweddoli nad oes rhaid i bopeth fod yn degan.

Mae potensial ym mhobman ac maen nhw bellach yn gweld posibiliadau ble bynnag maen nhw'n mynd, gyda bocsys cardbord, natur, dŵr ac ati.

Mae eu llygaid wedi cael eu hagor ychydig.

Yn bendant, rwy'n meddwl bod mwy o botensial am gwmpas, pe baen nhw'n dewis parhau i wneud eu ap L2.

Ond maen nhw'n bendant yn gweld pethau o safbwynt gwaith chwarae.

Siaradwr 2: Ydy'r hyfforddiant wedi bod o fudd i'r sefydliad ac i'r plant rydych chi'n gweithio gyda nhw?

Siaradwr 1: Yn bendant, mae'n mynd i agor cymaint fwy o ddrysau.

Dydy'r rhieni ddim yn hofran cymaint, dydyn nhw ddim mor hofrennydd bellach, oherwydd maen nhw'n deall manteision chwarae a manteision chwarae a ddewisir yn rhydd, gyda phopeth yn cael ei arwain gan y plentyn.

Maen nhw'n deall nad oes rhaid i bopeth fod mor strwythuredig, felly maen nhw yno'n mwynhau'r cyfleoedd yn llawer mwy.

O ran y sefydliad, ti'n gwybod, rydym bob amser yn croesawu teuluoedd o bob cefndir a phob diwylliant, ac mae'n hyfryd cael y cyfle nawr i integreiddio'n llwyr, gyda phawb yn cymysgu a phawb ar yr un dudalen o ran deall manteision chwarae, mynd allan a rhoi cynnig ar y pethau hyn.

Siaradwr 2: Fyddech chi'n argymell y rhaglen hon i unrhyw sefydliadau eraill, a pham?

Siaradwr 1: Yn bendant, byddaf.

Unrhyw sefydliad sy'n gweithio gyda phocedi llai o gymunedau,

unrhyw grwpiau lleiafrifol, unrhyw rai sy'n fwy gwledig neu'n ynysig, yn bendant, rhowch nhw ar yr hyfforddiant hwn, ac yna agor eu llygaid ychydig a'u cael i roi lens gwaith chwarae ar beth bynnag maen nhw eisoes yn ei ddarparu.
